CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

OFFERYNNAU STATUDOL

# 2006 Rhif 842 (Cy.77)

# CYNLLUNIO GWLAD A THREF, CYMRU

## Gorchmyn Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 (Cychwyn Rhif 4 a Darpariaethau Canlyniadol a Throsiannol a Darpariaethau Arbed) (Cymru) (Diwygio) 2006

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae Rhan 6 o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 ("y Ddeddf") yn gymwys o ran Cymru ac mae'n sefydlu system o gynlluniau datblygu lleol (CDLlau) yn lle'r cynlluniau datblygu unedol sy'n ofynnol o dan Bennod 1 o Ran II o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 ("Deddf 1990").

Dygwyd Rhan 6 o'r Ddeddf i rym gan Orchymyn Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 (Cychwyn Rhif 3 a Darpariaethau Canlyniadol a Throsiannol) (Cymru) 2005 (O.S. 2005/1229 (Cy.87) (C.56)) ("Gorchymyn Rhif 3") a Gorchymyn Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 (Cychwyn Rhif 4 a Darpariaethau Canlyniadol a Throsiannol a Darpariaethau Arbed) (Cymru) 2005 (O.S. 2005/2722 (Cy.193) (C.110)) ("Gorchymyn Rhif 4 "). Mae'r ddau Orchymyn hyn yn cynnwys trefniadau trosiannol i alluogi awdurdodau cynllunio penodol i lunio cynlluniau datblygu unedol o dan Ddeddf 1990, yn hytrach na symud yn syth i'r system CDLlau a gyflwynir gan y Ddeddf.

Effaith y Gorchymyn hwn yw egluro, er mwyn osgoi amheuaeth, bod y trefniadau trosiannol hyn yn parhau i fod yn gymwys i'r awdurdodau cynllunio lleol a restrir yn yr Atodlen i Orchymyn Rhif 4.

NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES

STATUTORY INSTRUMENTS

# 2006 No. 842 (W.77)

# TOWN AND COUNTRY PLANNING, WALES

## Planning and Compulsory Purchase Act 2004 (Commencement No. 4 and Consequential, Transitional and Savings Provisions) (Wales) (Amendment) Order 2006

### EXPLANATORY NOTE

*(This note is not part of the Order)*

Part 6 of the Planning and Compulsory Purchase Act 2004 ("the Act") applies in relation to Wales and establishes a system of local development plans (LDPs) in place of the unitary development plans required under Chapter 1 of Part II of the Town and Country Planning Act 1990 ("the 1990 Act").

Part 6 of the Act has been brought into force by the Planning and Compulsory Purchase Act 2004 (Commencement No. 3 and Consequential and Transitional Provisions) (Wales) Order 2005 (S.I. 2005/1229 (W.87) (C.56)) ("the No. 3 Order") and the Planning and Compulsory Purchase Act 2004 (Commencement No.4 and Consequential, Transitional and Savings Provisions) (Wales) Order 2005 (S.I. 2005/2722 (W.193) (C.110)) ("the No. 4 Order"). These two Orders contain transitional arrangements to enable certain local planning authorities to prepare unitary development plans under the 1990 Act, rather than moving immediately to the system of LDPs introduced by the Act.

The effect of this Order is to clarify, for the avoidance of doubt, that those transitional arrangements continue to apply to the local planning authorities listed in the Schedule to the No. 4 Order.

OFFERYNNAU STATUDOL

# 2006 Rhif 842 (Cy.77)

# CYNLLUNIO GWLAD A THREF, CYMRU

## Diwygio Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 (Cychwyn Rhif 4 a Darpariaethau Canlyniadol a Throsiannol a Darpariaethau Arbed) (Cymru) (Diwygio) 2006

| | |
|---|---|
| *Wedi'i wneud* | *21 Mawrth 2006* |
| *Yn dod i rym* | *22 Mawrth 2006* |

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adrannau 121(5) a 122(3)(b) o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004(**1**), drwy hyn yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn:

**Enwi, cychwyn a chymhwyso**

**1**.-(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 (Cychwyn Rhif 4 a Darpariaethau Canlyniadol a Throsiannol a Darpariaethau Arbed) (Cymru) (Diwygio) 2006.

(2) Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 22 Mawrth 2006 ac mae'n gymwys o ran Cymru.

**Diwygio Gorchymyn Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 (Cychwyn Rhif 4 a Darpariaethau Canlyniadol a Throsiannol a Darpariaethau Arbed) (Cymru) 2005**

**2**.-(1) Mae Gorchymyn Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 (Cychwyn Rhif 4 a Darpariaethau Canlyniadol a Throsiannol a Darpariaethau Arbed) (Cymru) 2005(**2**) wedi'i ddiwygio fel a ganlyn.

(2) Ym mharagraff (2) o erthygl 5 (darpariaethau trosiannol) o'r Gorchymyn yn lle'r geiriau "paragraff (1)" rhodder y geiriau "erthygl 4 a pharagraff (1)".

(**1**) 2004 p.5.

(**2**) O.S. 2005/2722 (Cy.193) (C.110).

STATUTORY INSTRUMENTS

# 2006 No. 842 (W.77)

# TOWN AND COUNTRY PLANNING, WALES

## Planning and Compulsory Purchase Act 2004 (Commencement No.4 and Consequential, Transitional and Savings Provisions) (Wales) (Amendment) Order 2006

| | |
|---|---|
| *Made* | *21 March 2006* |
| *Coming into force* | *22 March 2006* |

The National Assembly for Wales, in exercise of the powers conferred upon it by sections 121(5) and 122(3)(b) of the Planning and Compulsory Purchase Act 2004(**1**), hereby makes the following Order:

**Title, commencement and application**

**1**.-(1) The title of this Order is the Planning and Compulsory Purchase Act 2004 (Commencement No.4 and Consequential, Transitional and Savings Provisions) (Wales) (Amendment) Order 2006.

(2) This Order comes into force on 22 March 2006 and applies in relation to Wales.

**Amendments to the Planning and Compulsory Purchase Act 2004 (Commencement No. 4 and Consequential, Transitional and Savings Provisions) (Wales) Order 2005**

**2**.-(1) The Planning and Compulsory Purchase Act 2004 (Commencement No.4 and Consequential, Transitional and Savings Provisions) (Wales) Order 2005(**2**) is amended as follows.

(2) In paragraph (2) of article 5 (transitional provisions) of the Order, before the words "paragraph (1)" insert the words "Article 4 and" and for the word "does" substitute the word "do".

(**1**) 2004 c.5.

(**2**) S.I. 2005/2722 (W.193) (C.110).

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**1**)

21 Mawrth 2006

Signed on behalf of the National Assembly for Wales under section 66(1) of the Government of Wales Act 1998(**1**)

21 March 2006

*D. Elis-Thomas*

Llywydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Presiding Officer of the National Assembly for Wales

(**1**) 1998 p.38.

(**1**) 1998 c.38.

OFFERYNNAU STATUDOL

## 2006 Rhif 842 (Cy.77)

# CYNLLUNIO GWLAD A THREF, CYMRU

Gorchmyn Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 (Cychwyn Rhif 4 a Darpariaethau Canlyniadol a Throsiannol a Darpariaethau Arbed) (Cymru) (Diwygio) 2006

STATUTORY INSTRUMENTS

## 2006 No. 842 (W.77)

# TOWN AND COUNTRY PLANNING, WALES

Planning and Compulsory Purchase Act 2004 (Commencement No. 4 and Consequential, Transitional and Savings Provisions) (Wales) (Amendment) Order 2006

© Hawlfraint y Goron 2006

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

© Crown copyright 2006

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

**£3.00**

W309/04/06 ON